PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 5 GORFFENNAF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),<br>Y Cynghorwyr Boes, Davies, Ferguson-Thorne, Hopkins, Joyce, Simmons a/ac Singh<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig) a/ac Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>Mia John (Cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid) |

1 : PENODI CADEIRYDD, AELODAETH Y PWYLLGOR A CHYLCH GORCHWYL

PENDERFYNWYD:

Nodi y gwnaeth y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 26 Mai 2922:

- Penodwyd y Cynghorydd Lee Bridgeman yn Gadeirydd y Pwyllgor;
- Penodi'r Cynghorwyr Boes, Davies, Hopkins, Joyce, Lewis, Melbourne, Robinson a Singh;
- Cytuno ar y Cylch Gorchwyl atodedig

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Ferguson-Thorne a Simmons i'r Pwyllgor, a oedd wedi'u penodi gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Melbourne a'r Cynghorydd Sarah Merry, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg.

4 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 ac 8 Mawrth 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd hynny ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5 : CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) - DARPARIAETH ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLYRAU'R SBECTRWM AWTISTIG AR GYFER DISGYBLION OED CYNRADD AC UWCHRADD

Croesawodd y Cadeirydd Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), a Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Rhoddodd Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) ddatganiad i'r Aelodau yn amlinellu cefndir y tri adroddiad/ papur sy'n cael eu hystyried. Mae ymgynghoriadau wedi digwydd, mae'r canlyniadau wedi'u hadrodd yn ôl ac mae hysbysiadau statudol wedi'u cyhoeddi. Daw'r adroddiad yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch a fyddai'n iawn cymryd yn ganiataol, mewn termau strategol, mai'r ysgogwyr allweddol ar gyfer yr argymhellion yw'r twf a ragwelir mewn angen yn y dyfodol, digonolrwydd y lleoedd i ddiwallu angen, lleoliad y lleoedd hynny ledled y ddinas ac arbedion effeithlonrwydd, hynny yw, y potensial i wneud iawn am y costau ychwanegol o'r twf yn y ddarpariaeth drwy leihau gwariant ar Leoedd Allsirol ac mewn ysgolion annibynnol? Dywedodd y swyddogion, o ganlyniad i'r ymarfer mapio darpariaeth sydd wedi'i gynnal, fod y gost fesul disgybl, o fewn y sir ac yn allsirol, a thrafnidaieth yn debygol o ostwng. Yn sicr mae cynnydd mewn angen.

- Gofynnodd yr Aelodau am rywfaint o fewnwelediad i sut y bydd y gwerthusiadau ariannol yn cael eu datblygu a'r amserlen ar gyfer hynny, ac a oes unrhyw fodelu wedi digwydd ar y graddau y gellir cyflawni arbedion Allsirol a'r goblygiadau os na chânt eu gwireddu. Dywedodd y swyddogion fod asesiad wedi'i gynnal yn erbyn y lleoedd y tu allan i'r sir sydd yn bodoli; yn y pen draw nid oes lleoedd allan yna os nad ydym yn darparu ar gyfer y ddarpariaeth sy'n cael ei rhoi i mewn. Bydd yr holl gynigion a gyflwynwyd yn eistedd yn y Rhaglen Asedau Addysg sy'n ymdrin â chyflwr, addasrwydd a digonolrwydd. Wrth gyflwyno'r cynigion hyn ystyrir y llwybr caffael mwyaf priodol.

  Mae'n anodd darparu union ffigur o ran beth allai ddigwydd os oeddem yn ddibynnol iawn yn y dyfodol ar ddarpariaeth yn y sector annibynnol. Y gwir amdani yw eu bod bron yn llawn ar hyn o bryd; gallwn feincnodi yn erbyn y costau maent yn eu codi ar yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Os oeddem yn dibynnu ar y sector annibynnol, byddai'r costau tua £50,000 y flwyddyn fesul cynnydd disgybl.

  Dywedodd swyddogion y byddem yn disgwyl i gostau fesul disgybl ostwng, ond yn fwyaf tebygol, bydd gostyngiad mewn costau uwch.

- Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad am safon y staff sydd ar gael gan gofio bod nifer o CAAu i fod i agor ym mis Medi ac er bod polisi Adnoddau Dynol yn nodi y gall staff gael eu hadleoli o ran lleoliad a swydd, siawns na fydd hynny'n digwydd gan ei fod yn faes mor arbenigol? Cafodd yr aelodau wybod bod y cwestiwn yn ymwneud hefyd â'r adroddiad Iechyd a Lles Emosiynol; mae gwaith wedi bod yn digwydd ers bron 9 mis, mae nifer o dimau'n gweithio gyda phob un

o'r ysgolion yn unigol. Bu'n rhaid edrych arno fesul achos wrth edrych ar bob un o'r darpariaethau sydd wedi eu cyflwyno. Mae nifer o'r cynigion eisoes mewn lle dros dro ac mae'r cynnydd yn cael eu ffurfioli nawr. Roedd swyddogion yn cydnabod bod y ddarpariaeth ADY a'r pwysau ar ysgolion yn gyffredinol ac yn y dyfodol bydd ehangiadau pellach maes o law. Er nad oes anawsterau a ragwelwyd ar gyfer mis Medi, mae angen i ddatblygu'r gweithlu barhau i sicrhau bod digon o staffio wrth symud ymlaen, mae hynny'n ymwneud nid yn unig â staff dysgu ond hefyd i staff cynorthwyol. Mae'n rhaid cael strwythurau cymorth mewn lle hefyd.

- Holodd yr aelodau am y gwaith a wnaed gyda sefydliadau hyfforddiant athrawon i archwilio'r sgôp ar gyfer athrawon y dyfodol. Dywedodd swyddogion fod y Cyngor yn gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau ar Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a'r CSCA.

- Roedd aelodau'n holi am nifer yr athrawon ADY sydd eu hangen ac a oedd gofyn i athrawon ADY fod â sgiliau Cymraeg. Dywedodd swyddogion fod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion fesul achos. Mae'r Cyngor eisoes yn edrych i'r dyfodol o ran sut y gall ddarparu fesul cam o amgylch Band B ac ati, a bydd yn parhau i ystyried hyn wrth iddo weithio drwy'r broses. O ran addysg cyfrwng Cymraeg, bydd gweithgorau a chynlluniau gweithredu cyfrwng Cymraeg yn cael eu sefydlu yn y 6 mis nesaf o gwmpas y CSCA. Mae canlyniadau datblygu'r gweithlu yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y CSCA. Bydd cynlluniau gweithredu clir er mwyn cefnogi ysgolion a chyrraedd y targedau sydd wedi'u gosod yn y strategaeth.

- Gofynnodd yr aelodau pam y rhagamcanwyd y byddai cost trafnidiaeth yn codi'n sylweddol fwy na chyfran y disgyblion. Dywedodd swyddogion bod cynnydd sylweddol yng nghostau tanwydd a oedd yn gyrru'r pwysau ar y system. Yn ogystal mae nifer ychwanegol o ddisgyblion, sydd hefyd yn cynyddu'r pwysau ar gostau.

- Gofynnodd yr aelodau at ba gymhareb car i ddisgybl y mae'r Cyngor yn anelu ati, gan ystyried cynlluniau Teithio Llesol, neu a fyddai lle ar gael ar gyfer un maes parcio fesul disgybl ym mhob un o'r ysgolion a ystyriwyd. Dywedodd swyddogion fod rhai disgyblion yn cael eu cludo i ysgolion arbennig mewn tacsis a thrafnidiaeth â chymorth. Mae hyn yn cael ei gynnwys o fewn y modelu. Mae disgwyl i staff ac ysgolion gael cynlluniau Teithio Llesol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar wella ymwybyddiaeth o amcanion Caerdydd Un Blaned a'u cynnwys yn y cwricwlwm. Mae angen llawer o waith ar amcanion Caerdydd Un Blaned ond mae'r Cyngor yn dechrau llunio'r llif gwaith i wella ymddygiadau, sy'n helpu i leihau'r ddibyniaeth ar ddulliau teithio nad ydynt yn rhai teithio llesol. Mae'n rhywbeth fydd yn parhau i esblygu dros y blynyddoedd nesaf.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd gwaith wedi'i wneud o ran materion teithio i ddisgyblion Tŷ Gwyn, a faint o effaith mae disgwyl i'r 40 lle ychwanegol eu cael. Dywedodd swyddogion y byddai'r disgyblion

ychwanegol yn cael eu cyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd, gyda'r nifer gyntaf yn cael eu derbyn ym mis Medi. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar amseroedd parcio ceir ac amseroedd gollwng a chasglu, a gwella llwybrau i mewn ac allan.

- Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod cost lleoliadau annibynnol yn rhannol oherwydd eu timau amlddisgyblaethol mewnol, a gofynnwyd pa mor hyderus oedd y Cyngor y gallai'r timau Anabledd Dysgu presennol ddiwallu'r anghenion, gan eu bod eisoes wedi cyrraedd capasiti. Dywedodd swyddogion fod y llefydd wedi'u nodi yn y system yn gynnar iawn, ac mae cyfarfodydd strategol rheolaidd gydag Iechyd i sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnwys.
- Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd rheoli'r rhaglen o ystyried nifer y cynlluniau. Dywedodd swyddogion fod y cynlluniau mwy ar y gweill. Mae cynlluniau wedi cael eu dylunio a'u caffael ochr yn ochr â phapurau sy'n mynd drwodd oherwydd brys y cynigion. Mae mesurau wrth gefn ar waith gyda phob un o'r ysgolion. Mae nifer o ehangiadau eisoes wedi digwydd.
- Gofynnodd yr aelodau sut y byddai'r gofyniad i ysgolion ddyfeisio'u cynlluniau Teithio Llesol eu hunain yn cydfynd ag anghenion plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a beth fyddai disgwyl i ysgolion ei wneud i hwyluso Teithio Llesol i ddisgyblion o'r fath, gan gydnabod nad yw Teithio Llesol i lawer o'r disgyblion hyn yn opsiwn ymarferol. A fyddai hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau ar gyfer isadeiledd fel llefydd parcio? Dywedodd swyddogion fod cymhareb uwch o lefydd parcio i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig nag ysgolion prif ffrwd. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Priffyrdd ac yn edrych ar fynd i'r afael â materion priffyrdd trwy'r rhaglen asedau. Mae'r cynigion presennol yn ategu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo. Nid yw'n briodol ystyried Teithio Llesol i nifer o ddisgyblion, ac mae ffyrdd yn cael eu hystyried i leihau trafnidiaeth ledled y ddinas drwy gynyddu'r ddarpariaeth leol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

6 : CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) - DARPARIAETH IECHYD A LLES EMOSIYNOL AR GYFER DISGYBLION OED CYNRADD AC UWCHRADD

Croesawodd y Cadeirydd Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), a Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Rhoddodd Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen Cynllunio Trefniadaeth yr Ysgol) ddatganiad i'r Aelodau yn amlinellu cefndir y papurau a ddarparwyd. Mae'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn addas iawn i sicrhau bod cydbwysedd cywir y ddarpariaeth o fewn y ddinas.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd disgwyl i ddatblygiad Plasdŵr roi

pwysau pellach ar y safleoedd, a sut mae'r cynlluniau'n rhyngweithio â'r CDLl yn gyffredinol. Dywedodd swyddogion bod y cynnig yn edrych ar iechyd a lles emosiynol a bod trafodaeth bellach i'w gael o gwmpas mannau cynllunio strategol o amgylch y ddinas a sut roedd hynny'n gysylltiedig â'r CDLl.  Fe'i cynhwyswyd yn agos mewn perthynas â darpariaeth.  Bydd y Cyngor yn gobeithio dod â chydbwysedd ym mhob dalgylch mewn perthynas ag iechyd a lles emosiynol ac anghenion cymhleth.  Ar hyn o bryd, roedd yr angen yn bennaf yn nwyrain a gorllewin y ddinas. Dywedodd swyddogion fod nifer y disgyblion oed cynradd o safleoedd y CDLl newydd yn llai na'r gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau a'r gostyngiad yn y niferoedd derbyn. Y gostyngiad rhagamcanol yn nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgolion cynradd o'r brig yn 2015-2016 yw tua 25%, neu 1,000 o ddisgyblion ledled y ddinas fesul grŵp blwyddyn. Ni ddisgwylir i'r niferoedd o'r datblygiadau tai newydd fod yn fwy na 200-300 o ddisgyblion fesul cohort.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad am y cyfeiriadau yn yr adroddiad at geisiadau gan Estyn am ragor o fanylion ynglŷn â chynnig y Court ar ddau safle, a nododd fod y corff llywodraethu yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed hefyd wedi gofyn am fwy o fanylion, gan ofyn a fyddai mwy o fanylion yn cael eu darparu ar gam dylunio'r cynllun. Dywedodd swyddogion fod y dyluniad wedi cael ei weithio'n gyfochrog a bod brasluniau cychwynnol wedi'u rhannu ag Ysgol Gynradd y Tyllgoed. Bydd ymgynghoriad cyn cynllunio'n cael ei gyflwyno yn fuan, gan ddibynnu ar gymeradwyaeth y cynigion.

- Gofynnodd aelodau am eglurhad ar ariannu cynnig y Court, gan gyfeirio at ddatganiad yn yr adroddiad am dderbynebau cyfalaf o £25 miliwn. Gwnaethant ofyn am wybodaeth ynghylch sut y cafwyd y ffigur, a sut y mae'n cyd-fynd â grant Llywodraeth Cymru o 75%, y gofyniad benthyca Buddsoddi i Arbed o 25%, a sut y bydd y gronfa refeniw arfaethedig Trefniadaeth Ysgolion yn cael ei defnyddio. Dywedodd swyddogion fod y £25 miliwn yn wreiddiol yn cynnwys derbyniadau tir o safleoedd presennol Fitzalan, Woodlands a Riverbank.  Doedd dim disgwyl y byddai'r rhain yn cael eu gwireddu ar un tro gan fod angen darparu'r Rhaglen cyn y gellir gwireddu unrhyw dderbynebau cyfalaf.  Mae'r £25 miliwn Buddsoddi i Arbed yn cael ei fodelu o fewn y Rhaglen Asedau Addysg ac mae'r gwarediadau'n cael eu cynnwys yn y gronfa wrth gefn. Mae'r gyllideb mewn sefyllfa gytbwys.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

7 : EHANGU YSGOL GYNRADD PENTYRCH A SEFYDLU DARPARIAETH FEITHRIN YN YR YSGOL

Croesawodd y Cadeirydd Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), a Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) i'r cyfarfod.

Rhoddodd Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) ddatganiad i'r Aelodau yn amlinellu cefndir y papur a ddarparwyd. Mae'r ehangu arfaethedig wedi cael ei gyflwyno yng nghyd-destun cynllunio a data disgyblion. Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd niferoedd disgyblion yn lleihau oherwydd y gyfradd genedigaethau, ond mae disgwyl i lai o ddisgyblion deithio tu allan i'r dalgylch o ganlyniad i'r ddarpariaeth feithrin. Codwyd gwrthwynebiadau mewn perthynas â pharcio a thrafnidiaeth ac o'r feithrinfa leol.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd yn cael ei defnyddio, ac os felly sut y byddent yn sicrhau ei bod mor gynrychioliadol â phosibl. Dywedodd swyddogion ei fod yn gwneud hynny ar draws y rhaglen gyfan ar faterion o bwys penodol. Mae'r Cyngor yn edrych tuag at gyflwyno cynllun hirdymor gyda set o egwyddorion i gefnogi'r rhaglen CTY. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda grŵp o blant a phobl ifanc i'w diweddaru gyda materion sy'n ymwneud â'r rhaglen. Mae nifer o randdeiliaid a busnesau yn cefnogi'r gwaith.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd swyddogion yn hyderus nad oedd llefydd gwag yn cael eu cynllunio o ran Ysgol Gynradd Pentyrch yn y tymor hwy. Dywedodd swyddogion bod Pentyrch yn bentref anodd i deithio iddi ac oddi yno gan ddefnyddio dulliau teithio llesol, serch hynny mae rhieni yn dewis gwneud hynny er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth meithrin ac ysgol gynradd. Gydag amser bydd yr ysgolion CDLl newydd yn cael eu cyflwyno a bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion presennol. Bydd y cynnig yn sicrhau y bydd ystod lawn o wasanaethau gan gynnwys addysgu meithrin a chynradd a gofal cofleidiol ar gael ar un safle.

- Cododd aelodau pryderon trigolion am barcio a thagfeydd yn ystod amseroedd gollwng a chasglu'r ysgol, a gofynnodd a oedd y Cyngor wedi archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio tir wrth ymyl yr ysgol ar gyfer parcio staff a rhieni sy'n gollwng a chasglu. Dywedodd swyddogion nad oedd ehangu safle'r ysgol wedi cael ei ystyried. Y disgwyl yw y bydd cynllun Teithio Llesol yn cael ei ddatblygu. Byddai parcio hefyd yn cael ei ystyried gyda datblygiad mawr.

- Nododd yr aelodau na fyddai cael cynllun Teithio Llesol ar waith o reidrwydd yn atal rhieni rhag gyrru i'r ysgol, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell. Fe ofynnon nhw a fyddai modd gwario arian Adran 106 ar ddatrysiad i faterion parcio. Dywedodd swyddogion bod Priffyrdd yn edrych ar Barcio a Chamu yn yr ardal. Cafodd yr aelodau eu cynghori bod y Cyngor yn gallu ceisio cronfeydd Adran 106 yn unol â'i Gynllun CDLl a Seilwaith cyhoeddedig a chanllawiau cynllunio atodol. Dan y canllawiau cynllunio addysg gellir hawlio arian Adran 106 lle gall y Cyngor ddangos bod angen llefydd ychwanegol. Yn yr achos hwn mae'r arian

wedi'i glustnodi i ddarparu'r 70 lle ychwanegol ac mae'n dod yn uniongyrchol o ddatblygiad tai Goetre Bach.

- Gofynnodd yr aelodau pa mor hanfodol yw'r arian Adran 106 i'r ehangiad mewn mannau ym Mhentyrch, pa mor sicr ydynt a beth allai'r goblygiadau fod pe na baent yn cael eu gwireddu. Dywedodd swyddogion fod yr arian wedi ei dderbyn yn barod.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

8 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

9 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau’r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai’r Cadeirydd fyddai’n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai’n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a’r Swyddogion perthnasol.

10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf a drefnwyd yn cael ei gadarnhau ar ôl cyfarfod y Cyngor ar 21 Gorffennaf 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm